

Myfyrdod yr Wythnos - Caplaniaeth Prifysgol Bangor

Yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Amen

Pedr y Cantor Eglwysig



Llawysgrif  178, f. 2v, 1815, Mynachlog y Lafra Fawr, Mynydd Athos, Gwlad Groeg.

Ganwyd Pedr yn yr Ymerodraeth Otomanaidd oddeutu 1730, a bu farw mewn pla ym 1778. Ychydig a wyddys am ei fywyd cynnar. Serch hynny, daeth maes o law yn un o'r g wyr enwocaf a mwyaf dylanwadol ymhlith olyniaeth anhygoel cantorion yr Eglwys Uniongred yng Nghaergystennin. Bu iddo hefyd gryfhau ac adeiladu pontydd diwylliannol a chrefyddol yn ei gymdeithas gosmopolitaidd, a gall ei

Myfyrdod yr Wythnos - Caplaniaeth Prifysgol Bangor

esiampyl ein hysbrydoli, ein goleuo a hyd yn oed ein difyrru yn ystod heriau'r pandemig presennol.

Credir iddo gael ei eni yn Kollines neu gerllaw, yn 'Eyalet' Morea¹, ar benrhyn Peloponnesia, ac iddo gael ei fagu mewn tloidi

Pan oedd Pedr yn dal yn ifanc, sylwodd masnachwr Cristnogol Uniongred o Smyrna (İzmir) mor gerddorol addawol oedd Pedr, a'i alluogi i symud i'r ddinas hynafol honno - porthladd Anatolaidd cosmopolitaidd a bywiog. Roedd gan Smyrna - dinas y sonnir amdani yn y Testament Newydd - boblogaeth fawr o Gristnogion Uniongred. Cristnogion sy'n siarad Twrceg yw'r *Rwmlar* (Rhufeiniaid / Ρωμαῖοι) - disgynyddion y boblogaeth Uniongred a fu'n trigo yn Anatolia ac mewn mannau eraill yn yr hyn sydd bellach yn Dwrci ers y canrifoedd Cristnogol cynharaf. Er na alwant eu hunain yn Roegiaid, felly y cyfeirir atynt yn aml.

Yn y cyfnod Otomanaidd, roeddent yn rhan o 'Milet' (cymuned ffydd) Uniongred y Rwm o dan arweiniad Archesgob Caergystennin - y Rhufain Newydd - y Patriarch Eciwmenaidd, y mae ei bencadlys gweinyddol yn parhau hyd heddiw y rhan honno o İstanbul a elwir yn ardal y Ffener.

Deïllir fod Pedr wedi cael ei ddysgu am rai blynyddoedd yng nghymunedau mynachaid Smyrna. Yn ei *'Arolwg hanesyddol o Gerddoriaeth Eglwysig Fysantaidd'* (1904), mae Georgios Papadopoulos² yn dyfynnu Hatzegiakoumes³ yn dystiolaeth mai athro Petros yn Smyrna oedd y cantor enwog, yr Archddiacon Theodosios o Chios. Ond erbyn 1764, roedd Pedr yng Nghaergystennin, yn astudio wrth draed Ioan o Trebisond (Twrceg: Trabzon), Arch-gantor y *'Yr Eglwys Fawr'* - Eglwys

¹ Rhanbarth gweinyddol yn yr Ymerodraeth Otomanaidd

² Roedd Georgios Papadopoulos yn weithiwr cyfreithiol i'r Batriarchaeth yng Nghaergystennin.

³ Hatzegiakoumes, Manoles K. "Πέτρος Πελοποννήσιος '1760-1777"

Myfyrdod yr Wythnos - Caplaniaeth Prifysgol Bangor

Gadeiriol Batriarchaidd San Siôr. Ar ôl marwolaeth Ioan, dyrchafwyd Pedr a pharhaodd yn ei swydd anrhydeddus hyd ei farwolaeth.

Ag yntau'n gyfarwydd â byw mewn dinas hynod gosmopolitaidd, lluniodd Pedr gysylltiadau rhagorol yn y brifddinas â chymunedau heblaw'r Milet Cristnogol Uniongred yr oedd yn dechnegol yn perthyn iddo. Roedd ei ddealltwriaeth drylwyr o gerddoriaeth a'i allu anhygoel i gofnodi cerddoriaeth ar ffurf nodiant ar ôl gwranddo unwaith yn unig yn golygu ei fod yn hawdd iawn iddo bontio rhaniadau crefyddol a diwylliannol, gymaint yr oedd ei fedrusrwydd yn cael ei barchu a'i werthfawrogi.

Wedi'r cyfan, roedd wedi byw yn Smyrna, a gâi ei hystyried yn brifddinas cerddoriaeth Otomanaidd, ac roedd poblogaeth Uniongred y ddinas yn gyfarwydd â genres cerddorol 'makam'⁴ Otomanaidd.

Roedd ei ymwneud â derfisiaid 'chwyrliol' Mevlevi yn arbennig o drawiadol. Mae'r urdd grefyddol Foslemaidd hon - a sefydlwyd yn y 13^{eg} ganrif gan Mevlana Celaddin Rumi yn gwneud defnydd sylweddol o gerddoriaeth a dawn, yn enwedig yn eu defod '*Semâ*' enwog. Mae perthynas Cristnogion Uniongred Otomanaidd â'r derfisiaid yn dyddio'n ôl i'r Oesoedd Canol ac ymddengys fod Urdd Derfisiaid Mevlevi wedi cydweithredu'n agos â cherddorion Cristnogol oherwydd bod y Cristnogion yn defnyddio nodiant cerddorol a oedd yn sgil ddefnyddiol. Yn wir, cymaint oedd eu parch at Pedr ac mor werthfawr iddynt ei gysylltiad â nhw, bod cofnodion mewn dogfennau ac ar henebion y derfisiaid yn cyfeirio ato wrth deitlau aruchel, megis 'pencerdd'.

Mae'r ysgolhaig John Plemmenos yn nodi bod '... arysgrif o enw Petros wedi ei gadw tan y Rhyfel Mawr ar feddrod ym mynachdy'r Derfisiaid yn ardal Galata, Istanbul. ... Felly, mae'r ffaith bod enw Petros wedi goroesi ynddo'i hun yn awgrymu fod y Derfisiaid yn cyfri'r arysgrif yn

⁴ Cyfundrefn o fathau o alawon mewn cerddoriaeth glasurol a gwerin Twrcaidd.

Myfyrdod yr Wythnos - Caplaniaeth Prifysgol Bangor

bwysig. Gorweddai beddau rhai o feirdd a cherddorion y *tekke* mewn dau randy pren wrth fynedfa'r fynachlog. Cafodd y rhandai hyn eu dymchwel tua 1941, gyda'r beddrodau'n cael eu hadleoli'.



Derfisiaid chwyrliol yn Tekke ardal Pera, Caergystennin. (Jean Baptiste Vanmour: llun o'r 18fed ganrif yng nghasgliad y Rijksmuseum)

Agwedd yr un mor hynod ar gysylltiad Pedr â'i gymdogion Moslemaidd oedd ei gynefindra â cherddoriaeth Dwrcaidd, gan gynnwys genres 'makam' Otomanaidd⁵. Yn wir, ceir trawsgrifiadau o lawysgrifau yn llaw Pedr o ganeuon seciwlar yn y ffurfiau Otomanaidd *makam* ac *usul*⁶. O'r 72 llawysgrif sy'n dyddio o'r bymthegfed ganrif i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, sydd â cherddoriaeth *makam* wedi'i thrawsgrifio i nodiant Bysantaidd, priodolir cant o gyfansoddiadau i

⁵ Megis Peşrev, Taksim, a Saz Semai.

⁶ Cylch rhythmig sylfaenol mewn cerddoriaeth glasurol Otomanaidd.

Myfyrdod yr Wythnos - Caplaniaeth Prifysgol Bangor

Pedr. Ceir caneuon serch gan Pedr, a'r alawon wedi eu hysgrifennu mewn nodiant eglwysig Bysantaidd.

Mae storïau doniol yn gysylltiedig â Pedr, a'r canlynol ymysg yr enwocaf ⁷- ac yn fwy doniol fyth oherwydd bod gan Pedr gysylltiad agos â'r Llys Otomanaidd, a bod y Swltan wedi gorchymyn o'r blaen y câi Pedr fynd i'r palas fel y mynnai.

'Un diwrnod, aeth y Swltan o'i balas yn Istanbul, ac aeth i fosc Yeni Cami yn Balık Pazarı lle ciniawodd a chysgu'r nos ym mhafiliwn y mosg. Y noson honno, fel mae'n digwydd, aeth Petros i ymweld â *muezzin*⁸ Twrcaidd y mosg, yr hwn a'i gwahoddodd i aros am ginio. Yn ystod y cinio, buont yn siarad am alaw'r *selak* (datganiad) a genid ar *makam* penodol. Ymgwymerodd Petros â llafarganu'r alaw ar *makam* penodol yn gynnar yn y bore, er nad dros doeau'r minaret. Fodd bynnag, pwysodd y *muezzin* arno, er mwyn gwerthfawrogi ei gelfyddyd, a chan osod unrhyw ragfarnau crefyddol o'r neilltu, i lafarganu'r alaw newydd ar y minaret. Ar ôl gwneud hyn, aeth Petros ymaith i'r Phanar (y Batriarchaeth Roegaidd [*Rwm*]). Drannoeth, roedd ar y Swltan eisiau gwybod pwy oedd cyfansoddwr yr alaw *selak* newydd. Ar ôl cael y newyddion, ffromodd, a gorchmynnodd i ddau erlynydd cyhoeddus fynd i'r Batriarchaeth Roegaidd i hysbysu'r Patriarch o'r digwyddiad, yna arestio'r tresmaswr, a'i baratoi ar gyfer achos llys. Yn ystod llawer o'r holi, arhosodd Petros yn dawel a chymryd arno nad oedd yn ei iawn bwyll, drwy edrych o'i gwmpas a dal sylw ar ddimensiynau'r llys barn. Yn sydyn, agorodd ei geg, a chan lefaru'r geiriau canlynol "am le braf i rywun chwarae gyda chnau Ffrengig", neidiodd i ganol y llys, estyn cnau Ffrengig o'i boced, a dechrau chwarae gyda nhw gan frygowthan a sarhau'r rhai a geisiai ei rwystro. O weld hyn, dywedodd pawb oedd yn bresennol: "*Vah, zavalli, yazık divane olmuş*" (hynny yw, "och, druan ohono, dyna drueni, mae


⁷ Papadopoulos t322

⁸ Swyddog y mosg sy'n canu'r Alwad i Weddi o'r minaret.

Myfyrdod yr Wythnos - Caplaniaeth Prifysgol Bangor

wedi colli arno'i hun") Felly, penderfynodd y llys ei anfon i'r lloches seiciatryddol genedlaethol yn Eğri-Kapı, lle yr arhosodd am ddeugain niwrnod; yna, cafodd ei ryddhau i ddychwelyd i ymgymryd â'i ddyletswyddau'.

Pan wrthodwyd ysgrifbin ac inc iddo pan oedd yn y lloches, ni rwystrwyd Pedr gan hyn, ond cyfansoddodd un o'i gampweithiau cerddorol eglwysig, gan ddefnyddio'r sudd ceirios a ddarparwyd yn ddiod iddo. Enwodd y cyfansoddiad yn 'Ceirios-aidd'!



Un o ganeuon seciwlwr Petros ar *makam Rast* ac *usul Sofyan*, Ms Gr. 784, c. 1815, yr Academi Rwmanaidd, Bucharest.

Myfyrdod yr Wythnos - Caplaniaeth Prifysgol Bangor

Yn ei gymuned ei hun, mae cyfraniad Petros i gerddoriaeth yr Eglwys Uniongred yn enfawr. Bu'n dysgu yn ysgol gerddoriaeth Patriarchaeth Caergystennin, gan gyfansoddi gosodiadau cerddorol ynghyd â gwersi ac ymarferion i fyfyrwyr a oedd yn astudio llafarganu eglwysig, ac enillodd enw da iddo'i hun yn athro a chyfansoddwr toreithiog. Datblygodd a pherffeithiodd y nodiant cerddorol, gan gyfansoddi fersiynau newydd, symlach o'r llafargan eglwysig. Derbyniwyd y llyfrau cerddorol a ysgrifennodd ac fe'u defnyddiwyd yn helaeth fyth ers hynny.

'Datblygodd a mireiniodd Petros nodiant cerddorol dadansoddol, ac ef oedd y cyswllt pendant rhwng y cerddorion blaenorol a'r cyfnod newydd, a arweiniodd at y Dull Newydd o ysgrifennu nodiant cerddorol, a ddefnyddiwyd ers 1815'⁹.

Roedd ganddo fyfyrwyr lawer: Rumlar, Otomaniaid, ac Ewropeaid y dysgodd gerddoriaeth iddynt. Gwerthfawrogwyd yn fawr ei gyfraniad i'r Eglwys Armenaidd.

Hyd heddiw, mae ei ddylanwad ar gerddoriaeth eglwysig i'w deimlo nid yn unig yn Yr Eglwys Fawr yng Nghaergystennin, ond ym Mwlgaria, Rwmania, Macedonia, Serbia a Gwlad Groeg.

Daeth bywyd daearol rhyfeddol o gynhyrchiol a dylanwadol Petros i ben yn ei bedwardegau pan fu farw yn ystod pla trychinebus 1778 yng Nghaergystennin – pla a laddodd draean poblogaeth y ddinas.

Serch hynny, rhaid ei ystyried yn un o'r cerddorion Otomaniaid Cristnogol mwyaf rhyfeddol a mwyaf dawnus – un a gyflawnodd - yng ngwrs ei oes fer - ryfeddodau yn y blynyddoedd hynny yng Nghaergystennin rhwng 1764 a 1778.

Ni allai fod unrhyw ddiweddglo mwy huawdl a hynod i daith ddaearol Pedr na'r angladd adnabyddus a bythgofiadwy y mae'r cof ohono, diolch i Papadopoulos, ar gadw. Pan fu farw Pedr, ymgasglodd

⁹ Emmanouil Giannopoulos

Myfyrdod yr Wythnos - Caplaniaeth Prifysgol Bangor

derfisiaid pob 'Tekke' (mynachdai'r Derfisiaid) o İstanbul a gofyn am ganiatâd y Patriarch Sophronios II i ganu ar eu ffliwtiau yn yr orymdaith angladdol yn arwydd o barch at eu diweddar feistr.

Atebodd y patriarch fel hyn: *'Rwy'n cydymdeimlo â'ch tristwch mawr a achoswyd gan farwolaeth y diweddar feistr; felly, nid yw'n fwriad gennyf wrthod eich cais, ond, er mwyn peidio â throeddu yn erbyn y Porth Aruchel¹⁰, Erfyniaf ar bob un ohonoch i ddilyn yr orymdaith mewn distawrwydd, a thalu eich teyrnged ar lan y bedd'*. Derbyniodd y derfisiaid eiriau caredig y patriarch, a dilynasant yr angladd nes cyrraedd ohonynt Fynwent Uniongred Eğri-Kapı. Cyn gynted ag y claddwyd y corff, dringodd un o'r Prif Dderfisiaid i'r bedd a chan ddal *ney*¹¹ yn ei ddwylo, fel kannwyll wenfflam, meddai'n ddagreuol mewn Twrceg: *"O, ddiweddar feistr, a wnei di dderbyn yr offrwm olaf hwn gan dy ddisgyblion amddifad, yn gyfeiliant i'th emynau gyda'r angylion ym Mharadwys"*. Ac, wedi iddo osod yr offeryn ym mynwes yr ymadawedig, dychwelodd yn ddagreuol. (Papadopoulos 1890, t322) Yna daeth y Cristnogion â'r gwasanaeth claddu i ben yn ôl y drefn benodedig.

Yn ystod y pla presennol, bydd llawer o straeon hynod a huawdl a gânt eu hadrodd am genedlaethau i ddod. Mae hynny'n rhywbeth gwerthfawr sy'n dod yn sgîl pandemig.

+ *Tad Deiniol*

Deiniol Archabad

Caplan Eglwys Uniongred y Dwyrain

Gweinyddwr, Cenhadaeth Uniongred Cymru

Blaenau Ffestiniog

¹⁰ h.y. y Llywodraeth

¹¹ Ffliwt a ddefnyddir mewn cerddoriaeth Sufi, er enghraifft, yn nefod Semâ.